Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru - Polisi

Teitl: POLISI DATBLYGU CYNALIADWY

Datganiad Polisi:

Mae gan y term "Datblygu Cynaliadwy" bedwar llinyn eang ar gyfer Tai Canolbarth Cymru:

1. Yr Amgylchedd

Mae Datblygu Cynaliadwy ynglŷn â sicrhau bod y penderfyniadau a wnawn yng nghyswllt ein gweithgaredd datblygu yn rhoi ystyriaeth a hygrededd dyladwy i niwtraleiddio unrhyw effeithiau negyddol yng nghyswllt yr amgylchedd.

2. Ein Cwsmeriaid

Mae Datblygu Cynaliadwy ynglŷn â sicrhau y caiff pob annedd newydd eu datblygu i sicrhau ein bod yn creu gwell ansawdd bywyd ar gyfer preswylwyr presennol a phreswylwyr y dyfodol.

3. Y Cymunedau a Wasanaethwn

Mae Datblygu Cynaliadwey ynglŷn â sicrhau bod ein datblygiadau'n cyfrannu at sefydlu a chynnal y cymunedau lle gweithiwn.

4. Y Gymdeithas

Mae Datblygu Cynaliadwy ynglŷn â sicrhau bod ein datblygiadau newydd yn cyfrannu at nerth a hyfywedd ariannol y Gymdeithas.

Polisi Datblygu Cynaliadwy

Cod Cartrefi Cynaliadwy

Byddwn yn mabwysiadu'r Cod Cartrefi Cynaliadwy fel sail ar gyfer mesur cynaliadwyedd ar gyfer ein holl ddatblygiadau newydd. Ar gyfer datblygiadau a ariennir gan y Grant Tai Cymdeithasol, byddwn yn sicrhau lefel cod gofynnol Llywodraeth Cynulliad Cymru (lefel 3 ar hyn o bryd) fel isafswm, ond lle mae'n ariannol hyfyw i wneud hynny, byddwn yn ymdrechu i ragori ar ofyniad Llywodraeth y Cynulliad. Ar gyfer datblygiadau na chânt eu hariannu gan Grant Tai Cymdeithasol, byddwn yn ymdrechu i sicrhau'r safon uchaf cyraeddadwy o fewn hyfywedd cyffredinol y datblygiad.

Y Dimensiwn Lleol
Byddwn yn hysbysu pobl leol a chymunedau lleol am ein cynigion, ac yn ceisio ymgynghori gyda hwy yng nghyswllt yr hyn y byddwn yn ei ddatblygu.

Cymunedau Cynaliadwy

Wrth ystyried hyfywedd unrhyw gyfle datblygu, byddwn yn defnyddio methodoleg i sicrhau fod ein cynigion yn cyfrannu at sefydlu cymunedau amrywiol ac egniol.

Fforddiadwyedd

O fewn cyfyngiadau hyfywedd cyffredinol datblygiad, byddwn yn ceisio manylu cartrefi sydd â chostau rhedeg isel ar gyfer tenantiaid a chostau cynnal isel ar gyfer y Gymdeithas. Wrth sicrhau lefel gofynnol y Cod Cartrefi Cynaliadwy, byddwn yn ymdrechu i roi blaenoriaeth i waith sy'n cyfrannu at ostwng costau rhedeg a biliau tanwydd i denantiaid a'r Gymdeithas.

Hyblygrwydd

Lle'n bosibl, byddwn yn ceisio datblygu cartrefi sy'n hyblyg i'r newid yn anghenion preswylwyr, ac yn datblygu cynlluniau gyda chymysgedd anheddau sy'n hwyluso symudedd o fewn y gymuned yn y dyfodol.

Ffyrdd o Fyw Cynaliadwy

Yn ein cynlluniau byddwn yn cynnwys cyfleoedd i bobl fabwysiadu gweithredoedd cynaliadwy yn eu ffordd o fyw e.e. gofod/cyfleusterau ar gyfer ailgylchu, llwybrau diogel ar gyfer cerdded/beicio, mynediad i ffynonellau lleol o nwyddau a gwasanaethau. Byddwn hefyd yn darparu gwybodaeth a chynyddu ymwybyddiaeth am fanteision newidiadau i ffordd o fyw, e.e. defnydd mwy effeithiol o ynni.

Gwelliant Parhaus

Byddwn yn monitro ac adolygu ein holl ddatblygiadau gan sicrhau y caiff adborth gan denantiaid, cymunedau a'r gadwyn cyflenwi datblygu ei gynnwys yng nghynigion datblygu'r cynigion i sicrhau gwella yn ein gallu i ddarparu datblygiadau cynaliadwy.

Galw Hirdymor

Byddwn yn defnyddio dull gweithredu risg busnes ar gyfer pob cynllun datblygu newydd. Bydd hyn yn cynnwys ystyried materion a fedrai gael effaith negyddol ar y galw ar gyfer y cynllun yn y dyfodol.

<u>Meysydd Perfformiad Allweddol</u>

- Cynhelir adolygiadau cynllun datblygu ar bob datblygiad newydd a chaiff cyflawni mesurau cynaliadwyedd ei gynnwys fel rhan allweddol o'r adolygiad.

- Caiff datblygiadau newydd eu mesur yn erbyn y Cod Cartrefi Cynaliadwy ac yn sicrhau o leiaf lefel 3.

Diben:	Sicrhau y caiff mesurau cynaliadwyedd eu hystyried, eu mesur a'u hadolygu ar bob datblygiad newydd.
Cyfeirnod:	
Dyddiad Cyhoeddi:	I'w ystyried gan y Bwrdd ar 18 Mehefin 2008
Dyddiad Adolygu:	Mehefin 2011
Adrannau/Unedau yr Effeithir Arnynt:	Datblygu, Rheoli Asedau
Cymeradwywyd gan:	Amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd – 18 Mehefin 2008
Swyddog Arweiniol:	Cyfarwyddydd Gwasanaethau Technegol
Cydymffurfiaeth Statudol	Cod Rheoleiddiol 1.1.2 Mae'n rhaid i gymdeithasau ddarparu cartrefi sydd wedi eu cynllunio'n dda, o ansawdd da ac sy'n rhwydd eu cynnal a'u cadw.
Ffactorau Risg Strategol	• Cost sicrhau'r cod ar gyfer cartrefi cynaliadwy, effaith bosibl sicrhau'r lefel ofynnol ar hyfywedd, a'r effaith ar allu'r Gymdeithas i ddatblygu os na allwn ei sicrhau.